CARU PLESER NEU GARU DUW?

Nodyn i'r siaradwr:
Eglurwch berygl cyfrwys caniatáu i garu pleser reoli'n bywyd. Dangoswch yr effaith andwyol a gâi cwrs o'r fath ar hapusrwydd ac ysbrydolrwydd dyn. Anogwch bawb i feithrin golygwedd gytbwys at bleser ac i ymdrechu'n daer i gadw cariad at Jehofah yn flaenaf

MAE CARU PLESER AR DAEN AC WEDI YMLEDU'N ARUTHROL (5 mun.)

Rhagfynegodd yr Ysgrythurau y byddai dynion yn y dyddiau diwethaf "yn caru pleser yn fwy na charu Duw" (2Tim 3:1, 4; *w*88 6/15 17)

Tra bod llawer yn honni caru Duw, treuliant fwy o amser yn ymroi i ganlyn pleser nag i bethau ysbrydol

Mae llawer yn rhesymoli neu'n ceisio canfod esgusion dros hyn mewn ymdrech i gyfiawnhau tueddiadau hunanol y galon (Jer 17:9, 10)

Etifeddwyd tueddiadau o'r fath oddi wrth Adda, y denwyd ei galon ei hun gan hunanoldeb. Amlygwyd hyn ar raddfa eang yn oes Noa pan arweiniodd ymblesera at ffurfiau eraill ar ddrygioni, a dinistrio'r byd annuwiol yn ganlyniad iddo (Gen 6:5; 2Pedr 3:6)

Rhaid i Gristionogion fod yn ofalus iawn rhag i'r ysbryd hwn eu heintio nhw

Mae bod yn blesergar yn aml yn arwain at feddwdod, camddefnyddio cyffuriau, anfoesoldeb, a hyd yn oed farw cyn pryd (Gal 6:8)

Dim ond y rhai sy'n ceisio Duw a'i garu sydd â sail gobaith goroesi diwedd y drefn ddrygionus bresennol (Seff 2:2, 3)

MAE SATAN A'R BYD YN HYBU CARU PLESER (12 mun.)

"Duw gwynfydedig" yw Jehofah, sy'n ymhyfrydu yn ei weithredoedd perffaith (1Tim 1:11)

Dymuna i'w greaduriaid deallus fod yn hapus hefyd

Cynlluniwyd ein synhwyrau i ganfod amrywiaeth rhyfeddol o ran golygfa, sain, arogl, blas, ac ansawdd (1Tim 6:17)

Mae am inni fwynhau bwyd a diod (Preg 5:18)

Derbyniodd Iesu wahoddiadau i brydau bwyd a gwleddoedd ond cadwodd ei gydbwysedd ysbrydol; ni ddaeth erioed i 'garu pleser yn hytrach na charu Duw' (Lc 5:29; 19:5, 6; In 4:34)

Mae Satan a'r byd yn manteisio i'r eithaf ar ein hawydd etifeddol i fod yn hapus

Rhaid i weision Jehofah fod ar eu gwyliadwriaeth rhag maglau sy'n eu hannog i roi pleser yn gyntaf

Rhoddir golygwedd realistig ar bleserau gan Solomon (Preg 2:1, 2)

Ni all dilyn pleser sicrhau hapusrwydd parhaol

Dylem gymedroli yn nifer y cyfarfyddiadau cymdeithasol a fynychwn a'r amser a rown iddynt

Gofalwn nad yw cyfarfyddiadau buddiol ddim yn dod yn achosion swnllyd, afreolus o ymblesera (2Pedr 2:13)

Peidiwch â chaniatáu i gyfarfyddiadau ddatblygu'n achlysuron rhialtwch diymatal, yfed trwm, a chnawdolrwydd (Eseia 5:11, 12; 1Pedr 4:3)

Ni ddylid troi gwleddoedd priodas, pennau blwydd priodas, ac achlysuron tebyg yn gyfleon i fydolrwydd (1Cor 10:31; *w*92 8/15 15-20; *w*84 4/15 16-22)

Rhaid i arfer gwir addoliad fod y peth mawr yn ein bywyd, nid ceisio pleser (*w*83 11/1 24-7)

Ymogelwch rhag rhesymu satanaidd: "Dilyn eich mympwy eich hun"; "Penderfynwch drosoch eich hun"; "Mae Duw yn 'nabod ein gwendidau ac yn deall"; "Mae Duw yn ein caru ac mae am inni gael amser da"; "'Dyw e ddim ond ymlacio naturiol," ac yn y blaen (Jwdas 4)

Mae Satan am i bobl fyw fel pe na bai 'na yfory (Eseia 22:13; 1Cor 15:32)

Ni ddylai'r rhai sy'n caru Duw, a hwythau'n bobl sanctaidd, fyth anghofio hyd yn oed am ennyd fod "Dydd Duw" ar ddyfod a'r byd newydd addawedig gerllaw (2Pedr 3:11-13)

Rhybuddiodd Iesu ni am y peryglon difrifol o ddod i garu pleser yn hytrach na charu Duw (Lc 21:34-36; *w*83 7/1 3-7; *w*77 520-4)

FFRWYTH DRWG CARU PLESER (12 mun.)

(Dylai'r siaradwr adrodd rhai profiadau ac enghreifftiau sut bu i ganlyn pleser niweidio ysbrydolrwydd rhai gan ddod ag anhapusrwydd iddyn' nhw a'u teuluoedd; *yp* 296-9; *g*88 7/22 24-7; *g*86 2/22 13-17)

Dim ond "ffurf allanol crefydd" sydd gan y rhai sy'n caru pleser (2Tim 3:5)

Dônt yn eilunaddolwyr enwogion byd chwaraeon, y theatr, ffilmiau, a chymeriadau byd cerdd (*yp* 220-1; *w*72 754)

Mae ganddynt ffurf ar grefydd—credo hedoniaeth (*w*90 4/15 31; *g*72 1/22 26)

Mae llawer wedi rhoi y lle blaenaf i bleser yn hytrach nag i Dduw (*w*83 7/1 3)

Yn yr Unol Daleithiau, mae rhai yn cyfeirio at ganlyn pleser fel y diwydiant pwysicaf oll (*g*79 8/22 4)

'Dyw canlyn pleser ddim yn gwneud dim i ddyfnhau eich perthynas â Duw (*w*82 3/15 30)

Profiad Solomon oedd fod y cyfan yn ddibwynt ac ofer (Preg 2:3-11; *w*86 7/1 14-15; *w*77 58-9)

Condemniodd Iesu fywyd gwag, arwynebol y rhai sy'n ceisio pleser ac yn byw dim ond er mwyn bod hunanol gysurus (Lc 6:25)

Gall ceisio pleser ymyrryd â gweithgareddau theocrataidd

Ydych chi'n caniatáu i hyn ddigwydd? Ydych chi'n "disgwyl am Ddydd Duw"? (2Pedr 3:12) Pa un ydych *chi'n* ei geisio gyntaf, pleser neu'r Deyrnas? Pa un ydych chi'n ei wir garu—Jehofah neu bleser? (Mth 6:33; Mc 12:30)

Mae ceisio pleser yn aml yn mynd â dyn i leoedd bydol ac i gwmni drwg (1Cor 7:31)

Gall arwain at anfoesoldeb, meddwdod, cyffuriau (*w*88 6/15 18-19)

Mae canlyniadau trist hynny yn cynnwys ceryddu neu ddiarddel

CYNORTHWYON I WRTHSEFYLL CARU PLESER (12 mun.)

Atal problemau mewn cyfarfyddiadau cymdeithasol (*w*86 5/1 18-19; *w*77 524-6)

I osgoi cyfarfyddiadau cymdeithasol â naws bydol iddynt, ymogelwch rhag cymdeithasu hyd yn oed â rhai aelodau'r gynulleidfa (2Tim 2:20-22)

'Does dim rheidrwydd i wahodd rhai sy'n mynd dros ben llestri (2Thes 3:6, 7)

Cadwch gyfarfyddiadau yn rhesymol o ran maint, a sicrhau anrhydeddu Jehofah (1Cor 14:25)

Cadwch reolaeth ar yfed a cherddoriaeth (Eff 5:18, 19; *w*84 4/15 17-22)

Datblygwch olygwedd addas ynglŷn â phleserau (*w*92 8/15 17, 18; *w*83 11/1 24-7; *g*78 4/22 27-8)

Mae ymlacio llesol yn iawn (Preg 8:15)

Osgowch dreulio cyfnodau gormodol yn ymblesera (*w*89 7/15 11-12)

Dylai popeth harmoneiddio â'r ffydd Gristionogol (Phil 4:8)

Llenwch eich bywyd â gweithgareddau gwerth chweil

Mae cyfnod ieuenctid yn amser delfrydol i gychwyn ar hyn (Preg 11:9, 10)

Dylai pawb geisio llawenydd a bodlonrwydd mewn gweithgareddau ysbrydol

'Ydych chi wedi gwneud disgybl? 'Does dim llawenydd mwy na hyn

Mae medrusrwydd yn y weinidogaeth yn dod â bodlonrwydd dwfn

Gwnewch waith Duw yn brif gwrs y pryd bwyd, ac ymlacio'n ddanteithfwyd

GWOBRWYON CADW PLESERAU YN EU LLE (4 mun.)

Mae byw cytbwys yn rhoi cydwybod lân

Sefydlogrwydd a dyfalbarhad sy'n ein helpu i gadw ar y cwrs Cristionogol (Mth 7:13, 14)

Rhagor o amser ar gyfer datblygiad a thwf ysbrydol

Bydd y rhai sy'n caru Duw yn byw am byth (1In 2:17)

(Glynwch yn glòs wrth y deunydd a amlinellwyd, a chadw at yr amser a nodwyd ar gyfer pob adran. 'Does dim angen darllen pob testun a grybwyllir. 'Does dim rhaid crybwyll y deunydd ffynhonnell mewn cromfachau)